



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Nodiadau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

10 Gorffennaf 2020

9:10 yb to 11:30 yp

Ar Skype

Yn bresennol:	Teresa Owen (Cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Alwyn Jones, Bethan E Jones, Fôn Roberts, Clare Budden, y Cynghorydd Bobby Feeley, y Cynghorydd Christine Jones, y Cynghorydd Joan Lowe (JLo), y Cynghorydd Louise Emery, Estelle Hitchon, Helen Corcoran, Jennie Lewis (JLe), Jenny Williams, John Gallanders (JGa), John Gladston (JGI), Kevin Roberts, Ieuan Williams yn bresennol ar ran Llinos Medi Huws, Lynda Colwell, Lucy Reid, Mark Wilkinson (MWil), Mary Wimbury (MWim), Jane Davies yn bresennol ar ran Neil Ayling, Peter Williams, Roma Hooper, Shan Lloyd Williams.
Ymddiheuriadau:	Ffion Johnstone, Judith Greenhalgh, Morwena Edwards, Neil Ayling, Nicola Stubbins, Chris Stockport, y Cynghorydd Dafydd Meurig, y Cynghorydd Llinos Medi Huws, Rob Smith, Steve Gadd, Catherine Elaine Jones.
Hefyd yn bresennol:	Lesley Singleton, Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Dros Dro, Cyfarwyddwr Partneriaethau, BIPBC (ar gyfer eitem 2 ar y rhaglen) Yr Athro Nicky Callow, Deon, Coleg y Gwyddorau Dynol, Prifysgol Bangor (ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen)

1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Estynnodd y cadeirydd groeso cynnes i bawb a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod. Estynnwyd croeso arbennig i John Gallanders, a oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf fel cynrychiolydd interim y CGG.

Dywedodd BJE fod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar lwyfan rhithwir gwahanol yn cael eu harchwilio gan wasanaethau TG CSDd.

Adroddodd TO ar gyfarfod diweddar y Bwrdd Trawsnewid Ymgynghorol i drafod BPRh Cymru. Myfyriodd y Bwrdd ar sut aeth y gwaith ar draws iechyd a gofal cymdeithasol a sut mae 'Cymru Iachach' yn parhau, er efallai mewn ffordd wahanol. Cafwyd trafodaethau ynghylch anghydraddoldebau, cyfleoedd a newid cyflymder; a meddyliau ar sut i gynnal y momentwm wrth i'r gaeaf heriol agosáu.

2 Strategaeth Dementia Gogledd Cymru - Lesley Singleton .

Cyflwynodd LS Strategaeth Dementia Gogledd Cymru

Cydnabu LS yr holl waith a gwblhawyd gan Sarah Bartlett ar y Strategaeth Dementia.

Dywedodd LS fod effaith Covid ar unigolion â dementia yn sylweddol a bod yr angen i gefnogi unigolion sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr yn fwy nag erioed. Datblygwyd y Strategaeth cyn Covid, ac fe fydd hyn yn cael ei gydnabod yn ystod y cynllun gweithredu a chyflawni o ran y gwersi a ddysgwyd o fewn y grŵp cleifion.

Mae'r strategaeth yn seiliedig ar ymgynghoriad, ymgysylltiad a data ymchwil helaeth, ac fe fydd cyfeiriadau llawn ac atodiadau ar gael i'r cyhoedd ar wefan gydweithredol Gogledd Cymru.

Mae'r Strategaeth Dementia wedi'i seilio ar themâu Cynllun Gweithredu Dementia Llywodraeth Cymru gan ychwanegu blaenoriaeth benodol i Ofalwyr yn Strategaeth Gogledd Cymru:

- Lleihau risg ac oedi cychwyniad
- Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth
- Cydnabod a chanfod
- Asesiad a diagnosis
- Byw cystal â phosib gyhyd â phosibl gyda dementia
- Yr angen am fwy o gymorth
- Cefnogi gofalwyr

Bwriad y strategaeth oedd gosod egwyddorion rhanbarthol ar gyfer cyflawni'n lleol, gyda chamau gweithredu clir yn cyd-fynd â chyfleoedd ariannu posibl yn y dyfodol. Mae'r Strategaeth Dementia yn cefnogi egwyddorion Cymru Iachach.

Canmolodd LR y darn mawr o waith a gwblhawyd a'r ddogfen gynhwysfawr iawn. Fodd bynnag, nodwyd hefyd, gan fod y strategaeth wedi'i llunio cyn Covid, efallai y byddai'n rhaid diwygio camau gweithredu manwl, a byddai'n rhaid cydnabod hyn fel rhan o'r gymeradwyaeth.

Mae LR hefyd yn ymwybodol fod ar y grŵp hwn o unigolion wir angen cefnogaeth; yr unigolion nad ydynt wedi ymgysylltu, ac sydd yna'n ei chael hi'n fwyaf anodd ac yn cael yr effaith fwyaf ar deuluoedd a gofalwyr.

Dyweddodd LS y bydd codi ymwybyddiaeth o ddementia a darparu cefnogaeth ar ôl diagnosis, gyda thriniaeth ac ymyriadau yn flaenoriaeth.

Hefyd, nododd MWim yr holl waith a gwblhawyd ar y strategaeth. Fodd bynnag, gofynnodd am eglurhad ar y pwyntiau'n ymwneud â chomisiynu gwasanaethau o fewn yr adran 'angen am fwy o gefnogaeth' a sut y bydd hyn yn cael ei weithredu.

Dyweddodd LS fod y ddogfen strategol wedi cael ei chreu i osod bwriadau ac mae'r cam nesaf yn cynnig parchu'r system a gweithredu'r cyfeiriad strategol.

Nododd JGa fod llawer o gamgymeriadau yn yr adroddiad a holodd a fyddai cyfle i sefydliadau Trydydd Sector gyfrannu at unrhyw newidiadau. Gofynnodd hefyd sut y bydd y canlyniadau a fwriedir yn cael eu mesur a'u monitro.

Cytunodd LS a BJE i gwrdd â JGa ar wahân y tu allan i gyfarfod y Bwrdd i drafod y camgymeriadau a godwyd gan JGa.

Cadarnhaodd LS y bydd y cam gweithredol nesaf yn cynnwys y canlyniadau ac y bydd yr holl sectorau yn cael eu cynrychioli wrth gyflawni'r darn hwn o waith.

Dyweddodd EH fod y thema dementia yn amlwg iawn yng ngwaith YGAC, a dywedodd ei bod yn fodlon cysylltu i gefnogi'r cam gweithredol a rhannu gwybodaeth.

Dyweddodd LS fod y Strategaeth Dementia eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru, ac mae heddiw yn gofyn i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ardystio'r strategaeth, er mwyn gallu symud ymlaen i gam nesaf y ddarpariaeth.

Dyweddodd BJE, wedi i'r Strategaeth Dementia gael ei hardystio gan y BPRh, bydd rhaid i bob partner fynd â'r ddogfen drwy ei broses wleidyddol ei hun. Bydd y broses yn cael ei thracio ac fe gedwir cofnod o gytundeb y partner unigol.

Dyweddodd LR fod ardystiad ychydig yn wahanol i gymeradwyaeth. Mae rhai camau gweithredu a bwriadau yn eithaf penodol ac felly bydd rhaid aralleirio'r rheiny yn sgil Covid. Cynigodd LR fod aelodau BPRhGC yn ardystio'r Strategaeth Dementia mewn egwyddor, ar yr amod bod y diwygiadau a'r camau gweithredu mewn perthynas â Covid yn cael sylw a bydd hyn yn digwydd yn ystod y broses gymeradwyo leol.

Roedd pob aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cytuno â'r argymhellion:

1. Ardystio Strategaeth Dementia Gogledd Cymru.

2. Cymeradwyo bod Grŵp Llywio'r Strategaeth Dementia yn parhau i gwrdd i oruchwylio cyflawniad y strategaeth.
3. Cymeradwyo'r awgrym y dylai'r rhanbarth gyflwyno cais i ariannu swydd am gyfnod o ddwy flynedd i gefnogi cyflawniad y strategaeth.

Cytunodd BJE i weithio â LS i godi'r materion a drafodwyd a pharatoi adroddiad cryno i bartneriaid fynd â'r Strategaeth Dementia, ynghyd â chynllun cyflawni, trwy eu prosesau llywodraethu unigol eu hunain.

Actions

- LS/BJE i drafod materion ynglŷn â'r strategaeth gyda JGay tu allan i'r Bwrdd

3 Academi Ddysgu Ddwys - Nicky Callow

Rhoddodd Nicky Callow gyflwyniad i'r bwrdd ar yr Academi Ddysgu Ddwys.

Dywedodd NC, yn dilyn gweithdy a gynhaliwyd ar 9.3.2020, y penderfynwyd cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb i Lywodraeth Cymru. Tynnodd yr argyfwng Covid-19 presennol sylw pellach at yr angen am arloesi, rhannu arbenigedd a gwybodaeth, ac fe gyflwynwyd y cynnig ar 3.4.2020, ar ôl derbyn cytundeb mewn egwyddor gan gadeirydd BPRhGC.

Dywedodd NC fod y wireb fod atal yn well na gwella yn parhau i fod yn fwyfwy perthnasol. Wrth i'r boblogaeth gael ei heffeithio'n gynyddol gan forbidrwydd ac anhwylderau hirdymor osgoadwy, mae'r brys a'r angen i ganolbwyntio ar atal salwch yn cynyddu. Bydd yr AlphAcademy yn canolbwyntio ar gyflymu'r gwaith o hyrwyddo a mabwysiadu iechyd ataliol i arferion ar draws ecosystem gofal iechyd integredig (e.e. diwydiannau iechyd a gofal cymdeithasol, trydydd sector, tai, addysg a gwyddorau bywyd), o fewn cyd-destun dwyieithog.

Yn dilyn llwyddiant yn y rownd gyntaf fel un o'r 3 chynnig llwyddiannus, cyllid o £1M dros 3 blynedd, mae'r amserlen yn dynn a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno achos busnes llawn ar gyfer yr ail gam yw 7.8.2020. Os yw'r ail gam yn llwyddiannus, disgwylir y bydd y rhaglenni yn cael eu dilysu gan Brifysgol Bangor, a byddant yn cynnig dewis o gymwysterau o gymhwyster credyd meicro i Radd Meistr a Doethuriaeth Broffesiynol, i gyd yn canolbwyntio ar atal ac ecwiti iechyd. Bydd rhan o'r cyllid a geisir yn rhoi cymhorthdal i'r rhaglenni hyn, a chysylltir â chyflogwyr ar draws y bartneriaeth er mwyn i holl arweinwyr posibl y dyfodol gymryd rhan.

Dwy academi lwyddiannus, bosibl arall yng Nghymru yw Caerdydd ac Abertawe, gyda'u Byrddau Iechyd perthnasol, bydd cyfarfod chwarterol yn cael ei gynnal rhwng y 3 academi i rannu arferion da.

Croesawodd CB y cynnig cyffrous hwn ar gyfer y rhanbarth. Awgrymodd CB hefyd y dylai gwrdd â NC y tu allan i'r cyfarfod i gael trafodaeth bellach mewn perthynas â'i rôl fel Prif Swyddog Gweithredol Clwyd Alyn a chadeirydd y Mudiad

2025 ar draws Gymru, sydd yn blaenoriaethu rhoi diwedd ar anghydraddoldebau osgoadwy mewn lechyd a Thai ar draws Gogledd Cymru erbyn 2025.

Awgrymodd NC y dylai CB gysylltu â Rhodri Griffiths, Rheolwr Gyfarwyddwr Societas Management, a fydd yn rhan o'r holl ddigwyddiadau a gweithdai budd-ddeiliad busnes.

Roedd MWim yn ei chael hi'n anodd gweld sut fyddai'r rôl hon yn gweithio o fewn lleoliad Cartref Gofal, o ran cyfraniad gan gyflogwyr, amser i ffwrdd yn ystod cyfnodau dysgu dwys, a fyddai'n gweithio'n well mewn sefydliadau mawr.

Byddai NC yn croesawu adborth gan y sector Cartrefi Gofal ac fe gytunodd i gwrdd â MWim y tu allan i gyfarfod y BPRh.

Dywedodd BEJ fod hwn yn ddatblygiad ac yn gyfle cyffrous i Ogledd Cymru a chytunodd gyda Teresa y byddai rhywfaint o gyfranogiad / cymeradwyaeth gan y BGC yn werthfawr, gan y bydd gwybodaeth bwysig gan bartneriaid o bob cwr o Ogledd Cymru y gallai datblygiad o'r fath ei rhannu a'i datblygu.

Dywedodd TO mai un o ofynion sicrhau'r cyllid oedd cael cynrychiolydd BPRh yn y grŵp ac fe gyflwynwyd hyn i'r BPRh.

Dywedodd BEJ ei bod yn awyddus i gymryd rhan ac fe gynigodd arwain ar ran y BPRh, gan ei bod wedi gweithio ar draws sawl sector cyhoeddus a'i bod hefyd wedi bod yn aelod annibynnol o un o'r LCC yn y rhanbarth.

Bydd NC yn cysylltu eto â BPRhGC, os yw'r ail rownd y cais busnes yn llwyddiannus, er mwyn rhoi diweddariad ar gynnydd y prosiect.

Camau Gweithredu

- Rhannu manylion cyswllt NC gyda RG - RW
- Rhannu manylion cyswllt MWim gyda NC - RW

4 Cyllid Grant Gofalwyr 2020-2021

Derbyniodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan BJE am y Cyllid Grant Gofalwyr 2020 -2021 sydd yn cael ei gyflwyno heddiw i'w gymeradwyo gan BPRhGC.

Datganodd John Gallanders gysylltiad â'r Cyllid Grant Gofalwyr 2020-2021 – hwylusydd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam ac Ysbyty Maelor Wrecsam.

Dywedodd BJE y bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi £213K o gyllid rheolaidd ar 13.2.2020 i BIPBC i 'gefynogi Byrddau lechyd yng Nghymru i weithio ar y cyd â phartneriaid ar weithgareddau i wella bywydau gofalwyr'. Disgwylir y bydd y cyllid yn cyflawni 3 blaenoriaeth genedlaethol:

- Cefnogi bywyd ar y cyd â gofalu

- Adnabod a chydabod gofalwyr
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth

Mae Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru yn croesawu'r cyfle i ddefnyddio'r cyllid i ymateb yn fwy hyblyg i angen lleol yng Ngogledd Cymru, yn enwedig yn ystod y pandemig presennol, ac yn bwriadu defnyddio'r cyllid ar gyfer y canlynol:

- Sefydlu cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr
- Gwella mynediad at wasanaethau cymorth i ofalwyr o ofal sylfaenol ac ysbytai
- Cefnogi gofalwyr i gynnal eu rolau a'u lles eu hunain yn ystod pandemig COVID-19
- Cefnogaeth rheoli prosiectau i gyflawni'r uchod

Esboniodd BJE, yn anffodus, nad oedd amodau'r grant yn caniatáu i gyfnodau o seibiant gael eu hariannu drwy'r grant. Fodd bynnag, roedd atodiad C i'r adroddiad yn rhestru sut yr oedd pob ALI yn ymateb yn unigol i gyfnodau o seibiant.

Mynegodd JLe bryder o ran y sefyllfa enbyd y mae teuluoedd ynnddi ar hyn o bryd. Dywedodd fod gofalwyr yn ei chael hi'n anodd o hyd wrth i'r sefyllfa â Covid barhau a gofynnodd i'w chydweithwyr gofio y bydd ar ofalwyr angen seibiant cyn gynted â phosib', ac i gydnabod pa mor anodd y mae'r cyfnod hwn wedi bod i ofalwr a bod cymorth i ofalwyr wedi, ac yn parhau i fod, yn fendith i lawer iawn o bobl.

Cytunodd BPRhGC i gymeradwyo cynllun gwariant Gofalwyr 2020-2021 ar gyfer 2020-2021.

5 Grŵp Adfer Iechyd a Gofal (GAlaG)

Derbyniodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan Alwyn Jones am y Grŵp Adfer Iechyd a Gofal.

Rhoddodd AJ drosolwg o rôl y GAlaG, gan dynnu sylw at y ddogfen ffrwd waith sy'n dangos y meysydd i'w hadfer a'r grwpiau sy'n gyfrifol am ddarpariaeth leol; a'r ddogfen lywodraethu sy'n anelu i danlinellu darpariaeth leol drwy waith cydlynol drwy strwythur is-ranbarthol BGIA.

Bydd gan y Grŵp Cydlynu Adferiad (GCA) a'r BPRh drosolwg o'r cam adfer, gan gydnabod y bydd gan bob partner ei gynllun adfer ei hun. Mae'r gwaith adfer yn ddisgrifiadol, gan weithredu dull yn seiliedig ar risg, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud yn seiliedig ar ddata a rhannu'r hyn a ddysgwyd ar hyd y ffordd.

Prif gyfrifoldeb y GAlaG fydd darparu trosolwg o'r gwaith a gwblhawyd gan y grwpiau dirprwyedig ar draws y rhanbarth, gan gefnogi'r gwaith a rhoi cyfeiriad strategol, a diweddarau ac adrodd yn rheolaidd i'r GCA a BPRhGC.

Yn ôl MWim, mae'r sector yn bell o adferiad. Er bod Cartrefi Gofal a llawer iawn o sefydliadau mewn cyfnod pontio, mae'r sefydliadau, wrth reswm, yn nerfus iawn, gan gydnabod risg sylweddol cysylltiad cynyddol wrth i gymdeithas ddechrau ailagor ac i'r pandemig ddychwelyd.

Nododd y Cynghorydd BF y gwelliannau mawr a welwyd i amgylcheddau Cartrefi Gofal, ac i ddiogelwch staff a chleifion. Er, mae'n anffodus iawn na ddigwyddodd y newidiadau hyn yn gynt.

Cododd MWim y mater o brofi staff Cartrefi Gofal bob 4 wythnos a'r diffyg ymgysylltiad â'r sector a chyfeiriad polisi ar ddiwedd y 4 wythnos. Hefyd, mae angen trawsnewid y dull / yr amser ar gyfer cael canlyniadau, sydd ar hyn o bryd yn cael effaith niweidiol ar Brofi, Orlhain a Diogelu, preswylwyr a theuluoedd.

Mae TO yn ymwybodol o'r oedi hir o ran cael canlyniadau ac mae'n gweithio'n agos i addasu'r amserlen. Mae hefyd oedi o fewn y labordy cenedlaethol ac fe gytunodd TO i drafod y mater hwn gyda MWim y tu allan i gyfarfod y BPRh.

Gofynnodd JGa a oedd unrhyw fater yr oedd angen i'r BPRh edrych arno o ran y cyfnod adfer hir i lawer o bobl sydd wedi cael eu heffeithio ac yn gwella o effeithiau Covid, ac a oedd unrhyw bwyntiau pwysau ar wasanaethau yn y gymuned.

Dywedodd AJ fod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i hyn gydag is-grwpiau adfer tymor byr, tymor canolig a thymor hir er mwyn galluogi unigolion i newid i fywyd dydd i ddydd.

Soniodd KR am y sefyllfa adfer o safbwynt y Grŵp Cydgysylltu Strategol a'r GCA, sydd yn rhoi mesur i unigolion allu dechrau byw a gweithio gyda Covid – nid oes modd adfer cyn bod meddyginiaeth yn cael ei chanfod.

Gofynnodd JLe pwy oedd yn gyfrifol mewn perthynas â gwarchod, ac ym mhle oedd modd datrys y mater hwn. Cafwyd sawl ymholiad ynghylch pwy ddylai fod yn gwarchod eu hunain. Faint o gyfrifoldeb sydd gan Feddygon Teulu / Llywodraeth Cymru. Nodwyd bod unigolion wedi cael eu hanghofio ac y bydd yr unigolion hynny yn parhau i warchod eu hunain tan 16.08.2020 – a gofynnodd sut yr oedd pobl yn parhau i syrthio drwy'r rhwyd.

Cytunodd LR â sylwadau JLe. Mae'r canllawiau wedi newid yn barhaus drwy gydol y misoedd diwethaf, gan ei gwneud hi'n anodd iawn i gynnal rhestrau, gydag enwau unigolion gwahanol ar gofnodion gwahanol a gedwir gan Feddygon Teulu, Llywodraeth Cymru ac archfarchnadoedd.

Dyweddodd LR hefyd fod pobl yn drysu rhwng gwarchod a hunan-ynysu. Ni ddarparwyd canllawiau clir ar y dechrau ac nid oes unrhyw un am gymryd cyfrifoldeb dros y mater hwn. Bu i lawer o bobl gysylltu â'u Meddygon Teulu, mae angen i'r unigolion hynny ganolbwyntio ar y canlyniadau a gyflwynir drwy barhau i warchod eu hunain a sut y gallant gael eu cefnogi wrth symud ymlaen.

Canolbwyntiodd y drafodaeth hefyd ar effaith IM unigolion a'r cyswllt â hunanladdiad o ganlyniad i'r pandemig diweddar - dylai'r GAIaG flaenoriaethu hyn. Nodwyd cynnydd yn nifer yr unigolion sydd wedi lladd eu hunain yn ystod y cyfnod hwn, a hefyd yr effaith ar y boblogaeth ehangach sydd wedi profi newid i'w bywydau o achos Covid.

Camau Gweithredu

- TO i drafod mater canlyniadau gyda MWim tu allan i'r Bwrdd

6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 – Diweddarau Codau a chanllawiau: Rhan 9 Canllaw Statudol (trefniadau Partneriaeth)

Rhoddodd BJE drosolwg o'r newidiadau i'r Codau a'r Canllawiau ar gyfer Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a ddaeth i rym yn gynharach eleni.

Oherwydd cyfyngiadau amser, penderfynwyd gohirio'r drafodaeth ar y mater hwn tan y cyfarfod nesaf ar 7.8.2020. Gofynnir bod aelodau'r BPRh yn ymwybodol o'r canllawiau diweddaraf ac eu bod yn rhoi adborth ar y diwygiadau a nodir ym mhwyntiau 4.1 i 4.8 yr adroddiad. Bydd hyn yn sicrhau trafodaeth fanwl yn y cyfarfod nesaf.

Camau Gweithredu

- Anfon adborth ymlaen at BJE erbyn 30.7.2020

7 Llythyr gan Gadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol BIPBC

Adroddodd MWil ar y llythyr gan Gadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol BIPBC, a ddosbarthwyd i Arweinwyr a Phrif Swyddogion Gweithredol, Cadeirydd a Phrif Swyddog ALI Gogledd Cymru, CIC Gogledd Cymru, Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ac Aelodau'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol.

Nawr mae gofyn i PBC gyflwyno cynlluniau chwarterol i Lywodraeth Cymru, mae'r amllder yn adlewyrchiad o'r amgylchedd ansicr yr ydym i gyd yn gweithio ynddo ar hyn o bryd. Mae cynllun drafft Chwarter 2 i ddiwedd mis Medi hefyd wedi'i gynnwys, a fydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth yng nghyfarfod Bwrdd BIPBC ar 23.7.2020.

Mae blaenoriaethau BIPBC yn cynnwys gweithrediad effeithiol Profi, Olrhain a Diogelu ar draws y rhanbarth a pharhau ag adfer amrediad llawn y gwasanaethau ysbyty a gofal sylfaenol a chymunedol o safon, gan gydnabod y rhyngddibyniaethau rhwng iechyd a'r sector gofal cefnogol. Mae pwysau'r gaeaf a'r cynnydd o ran achosion Covid hefyd yn cael mwy o sylw.

Mae MWil yn croesawu adborth ar y cynllun drafft gan aelodau'r BPRh nawr neu y tu allan i'r cyfarfod.

Cododd MWim y mater o gynnydd yng nghanlyniadau prawf positif anghywir mewn perthynas â'r 28 diwrnod.

Soniodd MWim hefyd am fater strategol mewn perthynas â pha mor fregus yw'r sector Cartrefi Gofal. Mae Cartrefi Gofal eisoes wedi cael arian ar gyfer lleoliadau Cartref Gofal a gyllidir gan yr ALI i gydnabod y costau sylweddol o fewn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae llawer iawn o gartrefi nyrsio yn wynebu sefyllfaoedd ariannol difrifol, o ganlyniad i'r diffyg cyllid mewn perthynas â chyllid CIC gan Lywodraeth Cymru neu Brifysgol Betsi Cadwaladr.

Cytunodd MWil i gyflwyno'r cam gweithredu hwn o fewn PBC ac ymateb i MWim.

Ymatebodd TO i'r pryder ynglŷn â chanlyniadau prawf positif anghywir a chydabu fod angen gwneud mwy o waith. Dywedodd TO y bydd cynllun newydd yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yr wythnos nesaf a fydd yn rhoi cymorth ar draws y system.

Cynigodd MWim gynorthwyo drwy ddarparu adborth a mewnbwn i'r system ac fe gynigodd TO adrodd yn ôl.

8 Nodiadau a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin fel cofnod cywir a nodwyd bod pob cam gweithredu wedi'i gwblhau.

9 Unrhyw Fater Arall

Cynigodd CB fod y ddogfen 'Fframwaith Cynllunio Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cefnogaeth Tai' yn cael ei chynnwys ar y rhaglen er mwyn cael trafodaeth lawn yng nghyfarfod nesaf BPRhGC. Mae angen eglurder o ran sut y bydd BPRhGC yn cwrdd â'r disgwyliadau ynghylch dod â digartrefedd i ben. Dyddiad cau ALI Gogledd Cymru i gyflwyno cynlluniau cam 2 - 30.6.2020.

Dywedodd SLW ei bod yn llwyr gefnogi'r awgrym hwn, ac fe ofynnodd beth fydd y cynllun os nad yw LIC yn gallu ariannu'r cynlluniau a gyflwynwyd gan ALI Gogledd Cymru.

Camau Gweithredu

- Y ddogfen Ddigartrefedd ar raglen mis Gorffennaf – RW
- Cynyddu hyd y cyfarfod i awr a hanner - RW

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Dydd Gwener, 7 Awst – 1:00 – 2:30pm